

Bwrdd Cyngori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

3 Ebrill 2019, Swyddfa Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, CF10 3NQ

PWYNT GWEITHREDU	DIWEDDARIAD
EITEM 3 YR AGENDA – PRISIAD - Aelodau cyflogwyr i anfon neges e-bost at Lywodraeth Cymru yn amlinellu ymholiadau ynglŷn â chyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr. - Llywodraeth Cymru i godi'r ymholiadau ynglŷn â chyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr gyda GAD. - Y Weinyddiaeth i gynghori Tîm Cyllidebu Strategol Llywodraeth Cymru ar bryderon SABs ynglŷn â darparu cyllid SCAPE yn y dyfodol.	Wedi'i gwblhau. Cyflwynwyd ymholiadau gan Awdurdodau Tân ac Achub. Wedi'i gwblhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi codi'r ymholiadau gyda GAD. Rhoddir diweddariad o dan eitem agenda 2. Wedi'i gwblhau. Rhoddir diweddariad o dan eitem agenda 2.
EITEM 4 YR AGENDA – CYFLOG PENSIYNADWY Llywodraeth Cymru i geisio cadarnhad gan Clair Alcock ynglŷn ag amseriad canllawiau'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL).	Wedi'i gwblhau. Mae'r canllawiau wedi cael eu dosbarthu i aelodau. Bydd Cyflog Pensiynadwy yn cael ei drafod ymhellach o dan eitem 3 yr agenda.

Cofnodion**Aelodau**

Michael Prior (MP)

Cadeirydd Annibynnol

Aelodau Cyflogwyr

Y Cyng. Sue Pickering (SP)

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Aelodau Cyflogeion

Ade Robinson (AR)

Grant Mayos (GM)

Cymdeithas y Swyddogion Tân

Undeb y Brigadau Tân, Aelod y Cyngor

Gweithredol dros Gymru

Swyddogion yn bresennol

Kevin Jones (KJ)

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Alison Reed (AR)

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Helen MacArthur (HM)

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Arsylwyr

Sarah Tillman (ST)

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Chris Barton (CB)

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru (Gweinyddiaeth)

Kerry Citric (KC)

Cangen y Gwasanaethau Tân

Cerys Myers (CLM)

Cangen y Gwasanaethau Tân

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Claire Mills

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Y Cyng. Bryan Apsley

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Sean Starbuck

Undeb y Brigadau Tân

Adrian Hughes

Cymdeithas Gwasanaethau Tân ac Achub

Richard Fairhead

Cymdeithas yr Arweinwyr Tân

Clair Alcock

Cymdeithas Llywodraeth Leol

Mark Miles

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

1. EITEM 1 YR AGENDA – CROESO A CHYFLWYNIADAU

- 1.1 Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso i Alison Reed a oedd wedi disodli Mark Malson fel y swyddog yn bresennol ar ran Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Rhoddwyd ymddiheuriadau ar ran y Cyng. Claire Mills, y Cyng. Bryan Apsley, Mark Miles, Sean Starbuck, Adrian Hughes, Clair Alcock, a Richard Fairhead.

- 1.2 Cadarnhaodd yr aelodau nad oedd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau i'w ddatgan.

2. EITEM 2 YR AGENDA – COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

- 2.1 Cyfeiriodd MP at gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd a gwahoddodd yr aelodau i gytuno ar gywirdeb y cofnodion. Ni wnaed unrhyw sylwadau a chytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

MATERION YN CODI (FPSABW(19)01)

- 2.2 Cyfeiriodd MP at y diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2018 a oedd wedi'u cwblhau, a gofynnodd am ddiweddariad ar y materion a oedd heb eu datrys o gyfarfodydd blaenorol. Roedd diweddariad arall ar Ddata'r Cynllun yn ogystal â diweddariadau ar Gyflog Pensiynadwy a Byrddau Pensiwn Lleol yn rhan o'r agenda.

- ***Oedran Pensiwn Gwarchodedig*** – Dywedodd MP fod y pwynt gweithredu wedi bod ar yr agenda ers peth amser a chynigiodd y dylai gael ei ddileu gyda'r opsiwn o godi'r mater eto mewn cyfarfod yn y dyfodol, pe byddai hynny'n berthnasol. Cytunodd GM â'r ymagwedd hon.
- ***Rhoi gwybod i Drysorlys EM am safbwyntiau SABW ynghylch buddiannau goroeswyr*** – Roedd Llywodraeth Cymru wedi oedi cyn gwneud cynnydd ar y cam gweithredu hwn, yn bennaf o ganlyniad i bwyslais y Trysorlys ar y broses Brisio. Fodd bynnag, nododd yr aelodau fod dyfarniad ynglŷn â buddiannau goroeswyr wedi cael ei wneud ers hynny mewn dau achos arall ac y byddai'r rhain yn derbyn sylw o dan yr eitem ar ddiwygiadau i'r cynllun. Byddai Llywodraeth Cymru yn ailystyried y cam gweithredu i fynegi pryderon SABW ynglŷn â chydarddoli holl fuddiannau goroeswyr.

3. EITEM 3 YR AGENDA – PRISIAD 2016

- 3.1 Cyfeiriodd MP at benderfyniad Trysorlys EM i atal elfen cap costau'r broses Brisio. Roedd y penderfyniad hwn yn dilyn dyfarniad gan y Llys Apêl mewn achos yn ymwneud â throsglwyddo i gynllun 2015 a'r amddiffyniad a roddir i ddiffoddwyr tân hŷn yng Nghymru a Lloegr. Cafodd yr aelodau gopi o'r ymateb gan Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a ddywedodd fod atal elfen cap costau'r Prisiad yn benderfyniad gan Drysorlys EM nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth drosto.
- 3.2 Esboniodd KC ymhellach y bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac Adran Actiwari'r Llywodraeth ddilyn Cyfarwyddiadau Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (Prisiadau a Chap Costau Cyflogwyr) 2018 fel y'u hamlinellir gan Drysorlys EM. Roedd y Cyfarwyddiadau diwygiedig wedi dileu a disodli cyfeiriadau at amlygu achos o dorri'r cap costau, ond roeddent yn parhau i gynnwys y newid i Gyfradd Ostyngiad SCAPE ("cyfraniadau pensiwn wedi'u haddasu yn ôl profiad

blaenorol"). O ganlyniad, nid oedd yr adroddiadau prisio terfynol yn adlewyrchu achos o dorri'r cap costau ac, felly, ni allai Llywodraeth Cymru gymryd unrhyw gamau i wella buddiannau aelodau. Mewn cyferbyniad, roedd y newid i'r gyfradd SCAPE wedi cynyddu cyfradd gyffredinol cyfraniadau'r cyflogwyr yn sylweddol o 18.7% i 27.3%.

- 3.3 Roedd atal y cap costau yn effeithio ar holl gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus.
- 3.4 Rhoddwyd cyfle i'r aelodau fynegi eu barn am y broses, o ystyried y gwaith helaeth yr oedd y SAB wedi'i wneud yn yr hydref i ddatblygu argymhellion ar gyfer Gweinidogion Cymru i gywiro'r achos o dorri. Er ei fod yn siomedig â phenderfyniad Trysorlys EM yn gyffredinol, cytunodd fod y broses wedi helpu'r aelodau i ddeall y cynllun pensiwn ac effaith newidiadau i fuddiannau. Roedd y cymorth a roddwyd gan GAD a CLIL wedi bod yn arbennig o fuddiol. Teimlai'r aelodau y byddai'r gwaith hwn, a'r cynnydd canlyniadol mewn gwybodaeth a dealltwriaeth o'r broses brisio, yn werthfawr yn y dyfodol, naill ai ar adeg y prisiad nesaf sydd wedi'i gynllunio, neu mewn perthynas â gwaith ailbrisio sy'n deillio o ganlyniad yr achos amddiffyn wrth drosglwyddo.
- 3.5 Cadarnhaodd y tri Awdurdod Tân ac Achub eu bod wedi gweithredu cyfraddau newydd cyfraniadau'r cyflogwyr a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2019. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r cyllid grant a roddwyd i Awdurdodau Tân ac Achub ar gyfer 2019-20 i ymdopi â'r elfen SCAPE, a oedd wedi gadael diffyg mewn cronfeydd Awdurdodau Tân ac Achub. Roedd yr Awdurdodau Tân ac Achub hefyd yn pryderu bod y cyllid wedi cael ei gadarnhau ar gyfer 2019-20 yn unig, ac y byddai pwysau sylweddol ar gyllid sector cyhoeddus pe na byddai darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer y dyfodol.
- 3.6 Dywedodd KC fod y cyfrifiadau cyllid grant ar gyfer 2019-20 wedi'u seilio ar gyfrifiad GAD o'r cynnydd cyfartalog mewn cyfraddau'r cyflogwyr o fis Ebrill 2019 i 2023, sef 9.6% o gyflog pensiynadwy. Y rheswm am hyn oedd oherwydd nad oedd y cyfraddau penodol ar gyfer pob cynllun ar gael bryd hynny. Er bod swyddogion yn cydnabod bod hyn yn creu rhai cymhlethdodau i Awdurdodau Tân ac Achub, gwnaed y cyfrifiadau gan ddefnyddio'r wybodaeth a oedd ar gael ar adeg benodol i fwydo i'r darlun cyllido ehangach, gan nad yw'r cyllid a roddir gan Drysorlys EM yn benodol i Awdurdodau Tân ac Achub a'i fod yn cwmpasu'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru.
- 3.7 Roedd KC wedi rhannu copi o'r llythyr oddi wrth GAD a esboniodd rywfaint ar y cyfrifiad o gyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr. Fodd bynnag, teimlai rhai aelodau cyflogwyr y byddai'n ddefnyddiol pe gallai GAD roi esboniad manylach o'r gwahaniaethau rhwng y gyfradd gyflogwyr gyfartalog a chyfraddau cynlluniau unigol, a hefyd rhai o'r tybiaethau ynglŷn ag aelodaeth cynlluniau yn y dyfodol a ddefnyddiwyd gan GAD. Cytunwyd y byddai aelodau cyflogwyr yn rhoi unrhyw ymholiadau penodol yr oeddent eisiau eu codi gyda GAD ynglŷn â'r cyfrifiadau i Lywodraeth Cymru.

PWYNT GWEITHREDU: Aelodau cyflogwyr i anfon neges e-bost at Lywodraeth Cymru yn amlinellu ymholiadau ynglŷn â chyfraddau cyfraniadau'r cyflogwyr.

PWYNT GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i godi'r ymholiadau hyn gyda GAD.

- 3.8 Byddai cyllid ar gyfer y dyfodol yn rhan o'r adolygiad cynhwysfawr o wariant (CSR). Byddai tîm Cyllidebu Strategol Llywodraeth Cymru yn arwain trafodaethau CSR â Thrysorlys EM ac, felly, byddai'r weinyddiaeth yn codi pryderon y SABs gyda'r tîm hwnnw.

PWYNT GWEITHREDU: Y Weinyddiaeth i gynghori Tîm Cyllidebu Strategol Llywodraeth Cymru ar bryderon SABs ynglŷn â darparu cyllid SCAPE yn y dyfodol.

- 3.9 Dywedwyd wrth y SAB bod proses brisio 2016 wedi'i chwblhau bellach. Fodd bynnag, roedd GAD yn debygol o ddechrau gofyn i Awdurdodau Tân ac Achub am ddata ar gyfer Prisiad 2020 yn ddiweddarach yn y flwyddyn i ddod. Roedd hyn yn annhebygol o gynnwys y SAB.

4. EITEM 4 YR AGENDA – CYFLOG PENSIYNADWY

- 4.1 Cyfeiriodd MP at ddyfarniad yr Uchel Lys ynglŷn â Chyflog Pensiynadwy o ran Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Roedd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystyried effaith y penderfyniad ar hawlwr ac yn gwneud y cyfrifiadau angenrheidiol i weithredu'r dyfarniad. Roedd yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ceisio eglurhad pellach ynglŷn â'r cyfyngiadau a'r amseriadau yn ymwneud ag ôl-weithredu.
- 4.2 Yn yr un modd, roedd Undeb y Brigadau Tân yn ystyried gweithredu'r penderfyniad a'i effaith ar aelodau. Byddai cyngor Undeb y Brigadau Tân ar y dyfarniad yn cael ei anelu at ei aelodau yng Nghymru i ddechrau.
- 4.3 Roedd y mater yn effeithio ar ddiffoddwyr tân ledled y wlad, a gobeithiwyd y gallai ymagwedd gyson gael ei defnyddio ar draws y tri Awdurdod Tân ac Achub. Cyfeiriodd KC at y wybodaeth a ddosbarthwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL) a rhoddodd ddiweddariad ar ran Clair Alcock, nad oedd yn gallu dod i'r cyfarfod. Roedd CLIL yn archwilio'r dyfarniad a byddai canllawiau pellach yn cael eu rhoi i bob Awdurdod Tân ac Achub.

PWYNT GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i geisio cadarnhad gan Clair Alcock ynglŷn ag amseriad canllawiau.

5. EITEM 5 YR AGENDA – DATA'R CYNLLUN (FPSABW(19)02)

Costau'r Cynllun

- 5.1 Rhoddwyd manylion data gwariant ac incwm i'r aelodau yn ymwneud â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer y cyfnod 2011-19. Nid oedd y tabl yn cynnwys unrhyw ddata newydd o'r papur cynharach a roddwyd i'r aelodau ym mis Hydref, heblaw am rai addasiadau i ffigurau presennol yn seiliedig ar ddata archwiliedig sydd bellach ar gael ar gyfer blynyddoedd blaenorol. Byddai'r gwir ddata ar gyfer y cyfnod 2018-19 yn cael eu darparu yn y cyfarfod nesaf.

Cyfraddau Cyfraniadau'r Cyflogeion: Arenillion

- 5.2 Roedd yr arenillion cyfraniadau sy'n berthnasol i bob cynllun wedi cael eu cyfrifo'n unigol a'u cyfansymio i roi arenillion cyffredinol ar gyfer 2015-16, 2016-17 a 2017-18. Cyfanswm yr arenillion ar draws y tair blynedd oedd 13.17%. Byddai'r arenillion llawn ar gyfer y cyfnod pedair blynedd o 1 Ebrill 2015 yn cael eu cyfrifo a'u darparu i aelodau yn y cyfarfod nesaf, pan fyddai data 2018-19 wedi cael eu derbyn. Er bod y cynlluniau bellach mewn cylch prisio newydd, roedd angen i Lywodraeth Cymru, trwy SAB, gynnal yr ymarfer hwn o hyd.
- 5.3 Yn ystod y broses brisio, roedd GAD wedi defnyddio arenillion amcangyfrifedig ar gyfer y cyfnod dan sylw ym mhriiad 2016 (Ebrill 2019-Mawrth 2023) o 13% er bod dyluniad y cynllun yn gofyn am arenillion o 13.2%. Dywedodd KC fod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar y sefyllfa hon gyda Thrysorlys EM, a oedd yn golygu nad oedd angen gwneud unrhyw addasiadau i gyfraddau cyfraniadau'r cyflogeion. Nodwyd y byddai'r arenillion yn parhau i gael eu monitro gan y SAB, fel y bo'r angen.

Data Gadael

- 5.4 Roedd aelodau wedi gofyn yn flaenorol am wybodaeth fanylach fel y gellid ei dadansoddi'n well ac amlygu tueddiadau sy'n dod i'r amlwg. Yn arbennig, dywedodd aelodau y byddai'n ddefnyddiol deall y rheswm pam yr oedd unigolion yn dewis gadael y cynllun.
- 5.5 Roedd y data a ddarparwyd ar gyfer 2017-18 wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r dychweliadau chwarter 4 a gyflwynwyd gan yr Awdurdodau Tân ac Achub. Nodwyd bod y flwyddyn honno wedi bod yn un eithriadol oherwydd bod mwyafrif yr achosion o adael yn ymwneud â thynnu'n ôl yn dilyn ymuno'n awtomatig ag Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- 5.6 Roedd y data a gyflwynwyd ar gyfer 2018-19 yn cynnwys data gadael ar gyfer y cyfnod Ebrill – Rhagfyr 2018 (Chwarter 1-3). Yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd, a lle y rhoddwyd rheswm, roedd yn ymddangos bod nifer fach o aelodau wedi dewis gadael y cynllun am resymau ariannol; nid oedd aelodau'n gallu fforddio cyfraniadau'r cynllun neu roeddent eisoes yn talu i gynllun pensiwn arall. (O'r 91 achos o adael yn 2017/18, ni allai chwech fforddio cyfraniadau'r cynllun ac roedd tri eisoes yn talu i gynllun pensiwn arall.) Nodwyd bod nifer fach o achosion o adael yn ymwneud ag aelodau hŷn a / neu aelodau ar gyflog uwch.
- 5.7 Roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystyried ei wybodaeth adael yn fanylach, ond roedd y gwaith hwn ar gam cynnar o hyd.

5.8 Roedd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sylwi ar gynnydd yn nifer yr achosion o adael, yn enwedig o ran y system ar ddyletswydd yn ôl galw (RDS). Mae'n bosibl bod hyn oherwydd bod diffoddwyr tân RDS yn hunangyflogedig neu'n gweithio o fewn SME, sy'n achosi i'w hincwm amrywio. Arweiniodd hyn at drafodaeth ynglŷn â chyflog RDS yn gyffredinol a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar recriwtio a chadw. Cadarnhaodd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru fod cadw diffoddwyr tân RDS yn broblem yn ne Cymru er bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn darparu cynllun cyflog. Ychwanegodd AR fod cadw diffoddwyr tân RDS yn broblem yn Lloegr hefyd. Roedd Grŵp Llywio Ar Alwad y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (NFCC) yn archwilio materion sy'n achos pryder. Roedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r problemau yn ymwneud â recriwtio a chadw diffoddwyr tân RDS yng Nghymru, ac roedd trafodaethau'n parhau gyda'r Prif Swyddogion Tân a'r Undeb Brigadau Tân yn rhan o gyfarfodydd y Fforwm Ymgynghorol.

6. EITEM 6 YR AGENDA – DIWEDDARIADAU GAN FYRDDAU PENSIWN (FPSABW(19)03)

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

6.1 Roedd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi cynyddu nifer y cyfarfodydd o dair i bedair gwaith y flwyddyn. Roedd hyfforddiant wedi cael ei roi i aelodau newydd. Amlygwyd nad oedd 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddealladwy. Byddai mwy o sesiynau hyfforddi'n cael eu rhoi i aelodau i'w helpu i ddiweddaru eu manylion pensiwn a chyfrifo buddiannau.

Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

6.2 Roedd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi penodi tri aelod newydd a byddent yn cwblhau'r broses sefydlu angenrheidiol fel sy'n ofynnol gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Roedd y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi cael diweddariad ar Reol B5C a oedd yn ymwneud â thrin cyflog dyrchafiad dros dro fel buddiannau Pensiwn Ychwanegol.

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

6.3 Roedd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru am recriwtio aelod newydd i'r Bwrdd Pensiwn Lleol. Roedd y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi cael diweddariad ar y rheol B5C a byddai'n cael mwy o wybodaeth am y broses apelio maes o law.

6.4 Diolchodd MP i'r Awdurdodau Tân ac Achub am eu diweddariadau a dywedodd y byddai'n falch o roi adborth o'r SAB yng nghyfarfodydd y Byrddau Pensiwn Lleol unigol yn y dyfodol os teimlid y byddai hynny'n ddefnyddiol.

7. EITEM 7 YR AGENDA – DIWYGIADAU I GYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

Buddiannau goroeswyr ar ôl ailbriodi a Brewster

7.1 Cadarnhaodd KC fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dau orchymyn yn ymwneud â buddiannau goroeswyr ar ôl ailbriodi a Brewster. Daeth y newidiadau, ynghyd â rhai mân ddiwygiadau eraill, i rym ar 1 Mehefin 2018.

Walker (hawl partneriaid o'r un rhyw sydd mewn profedigaeth i gael buddiannau goroeswr)

7.2 Roedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyngor cyfreithiol ar oblygiadau dyfarniad [Walker](#). Roedd amseriad cyflwyno'r diwygiadau yn dibynnu ar allu Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru i lunio'r darpariaethau angenrheidiol. Roedd y Swyddfa Gartref wedi cyflwyno'r diwygiadau mewn perthynas â Chynlluniau Lloegr. Roedd risg bosibl pe byddai aelod cymwys yn trosglwyddo o Gynllun Lloegr i Gynllun Cymru. Tybiwyd y byddai'r dyfarniad yn effeithio ar nifer gymharol fach o bobl.

7.3 Nid oedd yn eglur p'un a fyddai'r diwygiadau'n cael eu cyflwyno ar wahân oherwydd gallent ffurfio rhan o ymarfer diwygiadau ehangach. Byddai Llywodraeth Cymru yn egluro hyn mewn unrhyw ohebiaeth a ddarperir.

McLaughlin (gwahaniaethu rhwng plant rhieni priod a dibriod o ran cymhwysedd am fuddiannau)

7.4 Roedd dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos [McLaughlin](#) yn ymwneud â chymhwysedd plant partneriaid dibriod i gael buddiannau goroeswr. Roedd yr achos yn ymwneud yn bennaf â budd-daliadau nawdd cymdeithasol yn hytrach na buddiannau pensiwn, ond roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried p'un a fyddai'r dyfarniad yn effeithio ar gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân, sef Cynllun 1992 a Chynllun lawndal 2017.

O'Brien

7.5 Rhoddwyd gwybod i'r SABW am ddyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (CJEU) yn achos [Mr O'Brien](#) ym mis Tachwedd 2018, ac yn enwedig elfennau o'r dyfarniad a oedd yn debygol o effeithio ar ddiffoddwyr tân RDS. Roedd Mr O'Brien yn fargyfreithiwr hunangyflogedig a oedd hefyd yn cael ffi ddyddiol am weithio fel Barnwr rhan-amser rhwng 1978 a 2005. Daeth y CJEU i'r casgliad y dylai cyfnodau gwasanaeth cyn dyddiad trosi'r Gyfarwydddeb Gweithwyr Rhan-amser yn 2000 gael eu hystyried wrth gyfrifo gwasanaeth pensynadwy ar gyfer barnwyr y telir ffi iddynt.

7.6 Dywedodd KC fod Llywodraeth Cymru yn ceisio cyngor gan ei gwasanaethau cyfreithiol ar oblygiadau a allai fod yn arwyddocaol i'r rhan Addasedig o gynllun 2007 a oedd wedi darparu'r opsiwn i ddiffoddwyr tân RDS brynu hawliau pensiwn yn ôl o 2000 ymlaen yn unig. Byddai unrhyw gamau i weithredu'r dyfarniad ar gyfer diffoddwyr tân yn rhoi baich sylweddol ar Awdurdodau Tân ac Achub a gweinyddwyr y cynllun.

Diwygiadau eraill

- 7.7 Roedd Llywodraeth Cymru yn cwblhau ymarfer cymharu diwygiadau diweddar a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth yr Alban i amlygu p'un a oedd angen i unrhyw newidiadau o'r fath gael eu hadlewyrchu yng Nghynlluniau Cymru.

8. EITEM 8 YR AGENDA – UNRHYW FUSNES ARALL

- 8.1 Gofynnodd MP a oedd gan yr aelodau unrhyw faterion yr hoffent eu codi nad oeddent eisoes wedi derbyn sylw yn yr agenda. Soniodd HM am leoliad y cyfarfodydd ac esboniodd nad oedd lleoliad yng Nghaerdydd yn ddelfrydol i bob aelod, yn enwedig y rhai sy'n dod o ogledd Cymru. Cytunwyd y byddai cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnal yn Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays gyda chyswllt fideo â Swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Byddai'r lleoliad yn newid bob yn dri chyfarfod ac yn cael ei gynnal yn Llandrindod.
- 8.2 Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu i'w gynnal ar 4 Gorffennaf yn Adeilad Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.
- 8.3 Amlygodd KC fod eitemau'r agenda yn aml yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru fel gweinyddiaeth y SAB, ac y gallai hyn olygu bod y materion yr ymdrinnir â nhw gan y SAB yn canolbwyntio ar fuddiannau Llywodraeth Cymru yn bennaf. Anogwyd yr aelodau i gynnig eitemau ar gyfer yr agenda ac i achub ar y cyfle i geisio cyngor gan Clair Alcock, gan fod yr Awdurdodau Tân ac Achub yn manteisio ar yr adnodd arbenigol a ddarperir gan CLIL.